

Datganiad gan Plantlife - Ni ddylai plannu coed newydd ddisodli cynefinoedd presennol sydd o werth uchel i fyd natur yng Nghynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) Llywodraeth Cymru.

25 Tachwedd 2024

Dywedodd Lizzie Wilberforce, Arweinydd Plantlife Cymru: “Rydyn ni'n croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i ffermwyr reoli 10% o'u tir fel cynefin ar gyfer bioamrywiaeth os ydyn nhw eisiau elwa o'r cyllid sydd ar gael o dan yr SFS newydd. Mae hwn yn fan cychwyn beiddgar ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu mwy uchelgeisiol ar gyfer adferiad byd natur y bydd angen i'r SFS eu cyflawni yn y pen draw os yw Llywodraeth Cymru am wyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru. Gyda 90% o dir Cymru yn cael ei ffermio, mae'n hanfodol bod tir amaethyddol yn cyfrannu tuag at ein targedau natur a charbon.

Mae hefyd yn galonogol gweld glaswelltiroedd parhaol llawn rhywogaethau yn cael y gydnabyddiaeth maen nhw'n ei haeddu o'r diwedd am eu rôl yn sicrhau dal a storio carbon ychwanegol ar y fferm, rhywbeth a anwybyddwyd yn flaenorol.

Fodd bynnag, mae Plantlife yn pryderu na fydd digon o gefnogaeth a chynghor i ffermwyr sy'n bwriadu ehangu eu gorchudd o goed, a allai ddisodli cynefinoedd presennol o werth cadwraeth uchel neu botensial adfer uchel, gan danseilio darpariaeth y cynllun ar gyfer byd natur a'r hinsawdd.

Yn ogystal, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i roi digon o gyllid yn ei le i ddarparu rhaglen lawn o gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar fyd natur yn haen ddewisol yr SFS, yn ychwanegol at y cyllid sy'n cael ei addo ar gyfer y camau gweithredu plannu coed a dal a storio carbon.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cynllun yn cyflawni ar gyfer byd natur, gweithredu dros yr hinsawdd a ffermwyr wrth iddyn nhw symud tuag at ffermio mwy cynaliadwy.”